Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uwch

Hyrwyddo arloesedd a masnacholi technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector o fewn ein rhanbarth.

Amcanion

- Creu hyd at 150 o swyddi
- Cynhyrchu hyd at £60m o GVA ychwanegol net
- Gweithio gyda hyd at 55 o bartneriaid i ddatblygu technolegau carbon isel neu leihau gwastraff
- Uwchsgilio hyd at 100 o bobl / busnesau yn y technolegau a dargedir

Targedau Buddsoddiad

£20m

Cyfanswm

Y Prosiectau

1. Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol

Prif Ariannwr: Prifysgol Bangor

Archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau carbon isel yn lle cynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol.

2. Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter

Prif Ariannwr: Prifysgol Wrecsam

Darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i archwilio opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd fel dewis amgen o ddeunydd ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.

Mae ein hachosion busnes prosiect yn destun Adolygiadau Porth annibynnol gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, ar bwyntiau penderfynu allweddol, yn unol â Phroses Porth y Trysorlys